



## Canllaw Arfer Da ar gyfer Ysgrifennu Siartiau Rhoi Meddyginiaeth (MAR) â Llaw mewn Cartrefi Gofal a Lleoliadau Gofal Cartref

**Dylai pob meddyginiaeth a ragnodir i breswlydd gael ei chofnodi ar siart MAR wedi'i hargraffu. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol, lle nad yw siart MAR wedi'i darparu, y dylid defnyddio'r arweiniad isod ar y cyd â pholisïau/gweithdrefnau'r darparwyr gofal eu hunain.**

Dylai siartiau MAR gael eu hysgrifennu'n llaw gan aelod o staff dynodedig, sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n gymwys i wneud hynny, yn unig. Mae'n rhaid i'r llawysgrifen fod yn eglur a chael ei gwirio'n annibynnol gan ail unigolyn dynodedig sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n gymwys i wneud hynny.

Dylai nodiadau fod yn glir, yn ddarllenadwy, yn llawn heb dalfyriadau neu jargon a dylid defnyddio inc nad oes modd ei ddileu. Mae'n bwysig sicrhau bod modd darllen y nodiadau a'u deall yn glir. Felly, os bydd angen, dylai'r nodyn MAR gael ei ailysgrifennu yn hytrach na diwygio'r un presennol. Dylai'r nodyn gael ei ysgrifennu yn yr adran wag newydd ar y siart MAR bresennol, os yw'n llawn, dylid defnyddio siart MAR wag newydd. Os oes gan breswlydd fwy nag un siart MAR, dylid ei rhifo'n ddilyniannol e.e. 1 o 2, 2 o 2.

Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl fanylion gofynnol yn ymwneud â phreswylwyr a rhagnodwyr yn cael eu cwblhau a'u bod yn gyfredol.

**Beth sydd ei angen ar siart MAR:** enw'r claf, dyddiad geni, cyfeiriad, alergeddau, enw meddyg teulu, pwysau, dyddiad pwyso, dyddiad/cyfnod dechrau, dyddiad a diwrnod stopio.

### **Sicrhewch y canlynol:**

- Eich bod yn delio â'r preswlydd cywir
- Mae'r eitem gywir wedi'i rhagnodi
- Mae'r siart MAR yn gywir

### **Gwiriwch cyn trosi:**

- Nad oes gan y preswlydd unrhyw alergedd neu sensitifrwydd i'r eitem a ragnodir
- Bod dyddiad meddyginiaeth a roddir yn gyfredol, a bod arni gyfarwyddiadau clir a'i bod o ffynhonnell ddibynadwy

### **Cofnodwch y wybodaeth fel y mae'n ymddangos ar y label dosbarthu:**

- Swm a roddwyd a'r dyddiad derbyn
- Enw'r eitem a ragnodwyd
- Cryfder (e.g. 50mg/250 microgram/20 uned)
- Ffurf (e.e. tabledi/capsiwlaau/hylif/rhyddhau wedi'i addasu/tabled chwaladwy)
- Dos (e.e. un tabled, mesur un blaen bys, 10mLs)
- Pa mor aml (e.e. unwaith y dydd)
- Pa adeg o'r dydd (e.e. cyn brecwast/liw nos)
- Rhagofalon arbennig (e.e. ar ôl bwyd/eu llyncu'n gyfan)
- Dyddiad Dechrau/Stopio os yw'n berthnasol (e.e. cyffuriau gwrthfotig)
- Llwybr rhoi lle bo'n briodol e.e. y llygad, yn argroenol, o dan y tafod, trwy diwb bwydo

### **Cofiwch:**

- Canslwch unrhyw feddyginiaeth sydd wedi'i dirwyn i ben gan roi llinell glir trwy'r nodyn, llofnodwch â llythrennau cyntaf enw a'i ddyddio (a chofnodwch pwy wnaeth ddirwyn y feddyginiaeth i ben h.y. enw'r meddyg)
- Llofnodwch â llythrennau cyntaf enw ar gyfer pob meddyginiaeth a ychwanegir at y MAR a'i dyddio
- Mae'n rhaid i aelod arall dynodedig o staff, sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ac sy'n gymwys i wneud hynny wirio'n annibynnol ac yna llofnodi â llythrennau cyntaf y siart MAR **sydd wedi'i chwblhau a'i dyddio cyn ei defnyddio.**
- Mae'n bwysig bod nyrsys cofrestredig yn cadw at y canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)